Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 71/2014

www.cymru.gov.uk

# Dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir a'r defnydd a wna plant 10-11 mlwydd oed Cymru o e-sigaréts

# Adroddiad canfyddiadau allweddol CHETS Cymru 2

**Dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn ceir a'r defnydd a wna plant 10-11 mlwydd oed Cymru o e-sigaréts:**
Adroddiad canfyddiadau allweddol CHETS Cymru 2

Graham Moore, Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

Laurence Moore, Cyngor Ymchwil Feddygol/Swyddfa'r Prif Wyddonydd, Uned y Gwyddorau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Glasgow

Nilufar Ahmed, Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

Hannah Littlecott, Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

Jo Holliday, Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Prifysgol Caerdydd

Barn yr ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am ragor o wybodaeth a fyddech cystal â chysylltu â:
Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif Ffôn: 029 2082 3411
E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 15 Gorffennaf 2014
ISBN 978 1 4734 1795 3
© Hawlfraint y Goron 2014

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Yn sgil cyflwyno deddfwriaeth ddi-fwg yn 2007 cafwyd gostyngiad yn nifer y plant yng Nghymru a ddeuai i gysylltiad cyffredinol â mwg ail-law[1]. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad yn digwydd i raddau helaethach ymhlith plant a ddeuai i gysylltiad mwy cymedrol, gydag ychydig iawn o newidiadau ymhlith plant ysmygwyr neu blant o deuluoedd tlotach[2].

Mae ymdrechion i ostwng nifer y plant a ddaw i gysylltiad â mwg ail-law bellach wedi targedu ysmygu mewn mannau preifat, gan gynnwys ceir. Cafodd yr ymgyrch Cychwyn Iach Cymru (http://freshstartwales.co.uk/) ei lansio yn 2011, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o beryglon mwg ail-law ac annog pobl i gyfyngu ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant. Nododd Llywodraeth Cymru pe na byddai ysmygu mewn ceir yn gostwng yn ddigonol yn y tair blynedd wedi dechrau'r ymgyrch, byddid yn ystyried deddfu. Comisiynwyd yr astudiaeth hon i edrych a fu gostyngiad mewn ysmygu mewn ceir ers cynnal arolwg yn 2008 ar ôl y ddeddfwriaeth.

Yn Lloegr, bu pleidlais ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin[3] o blaid cyflwyno deddfwriaeth i roi sylw i ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn erbyn cefndir lle'r oedd y cyfryngau'n gwrando'n astud iawn ar ddadleuon ynghylch ysmygu mewn ceir. O'r herwydd, er nad oes modd priodoli newidiadau'n benodol i Gychwyn Iach Cymru, bydd yr arolwg yn paratoi data ar y graddau hynny y mae ysmygu mewn ceir yn gyffredinol, ac ymhlith grwpiau mewn perygl, yn parhau'n broblem yn 2014.

At hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder ynghylch nifer gynyddol yr e-sigaréts sydd i'w gweld mewn mannau cyhoeddus, a'r posibilrwydd y gallai hyn

---

[1] Holliday, J., Moore, G., & Moore, L. (2009). Changes in child exposure to secondhand smoke after implementation of smoke-free legislation in Wales: a repeated cross-sectional study. *BMC Public Health, 9*(1), 430.

[2] Moore, G. F., Holliday, J. C., & Moore, L. A. R. (2011). Socioeconomic patterning in changes in child exposure to secondhand smoke after implementation of smoke-free legislation in Wales. *Nicotine & Tobacco Research, 13*(10), 903-910.

[3] http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmhansrd/cm140210/debtext/140210-0002.htm#14021028000001

ddadwneud rhyw gymaint o’r gwaith a aeth i mewn i ddadnormaleiddio ysmygu[4]. Felly, yn ogystal ag ysmygu mewn ceir, cafodd cwestiynau ynghylch pa mor gyffredin oedd y defnydd a wna plant 10-11mlwydd oed o e-sigaréts a phatrymau’r defnydd hwn, eu cynnwys yn arolwg 2014 ac adroddir arnynt.

### 1.2 Yr adroddiad ei hun

Yn 2007 a 2008, edrychodd nifer o arolygon trawstoriadol (CHETS [5] Cymru) ar newidiadau o ran plant a ddeuai i gysylltiad â mwg ail-law ar ôl y ddeddfwriaeth. Yr un oedd elfennau arolwg 2014 CHETS Cymru 2 ag elfennau’r arolygon cynharaf hyn, recriwtio sampl o 75 o ysgolion a chasglu data holiadur oddi wrth 1601 o blant o’r ysgolion hynny.

Nod yr arolwg oedd recriwtio cymaint o’r ysgolion a gymerodd ran yn CHETS Cymru ag yr oedd modd. Gofynnwyd yr un cwestiynau am y cysylltiad â mwg ail-law y deuai plant iddo mewn mannau preifat ag a ofynnwyd yn CHETS Cymru, gydag ychydig o eitemau ychwanegol ar ysmygu mewn ceir. Cwblhawyd hefyd eitemau ychwanegol ar ddefnyddio e-sigaréts. Casglwyd y data mewn dosbarthiadau gan staff ymchwil hyfforddedig.

Yn yr adroddiad hwn ceir ddisgrifiad o newidiadau yn y cysylltiad ag ysmygu mewn ceir y daeth plant iddo rhwng 2008 a 2014. Mae hefyd yn cynnwys data ar ba mor gyffredin yw defnyddio e-sigaréts a chysylltiadau gyda rhieni’n ysmygu a’r bwriadau i ysmygu yn y dyfodol. Bydd adroddiad llawnach yn cynnwys disgrifiadau manwl o ddulliau a dadansoddiadau ystadegol yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach ymlaen.

---

[4] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/white-paper/?lang=cy

[5] Holliday, J., Moore, G., & Moore, L. (2009). Changes in child exposure to secondhand smoke after implementation of smoke-free legislation in Wales: a repeated cross-sectional study. *BMC Public Health, 9*(1), 430.

# 2. Canfyddiadau allweddol

## 2.1 Cymharu CHETS Cymru 2 â CHETS Cymru

Gyda CHETS Cymru 2, cafwyd ymateb gan 66% o ysgolion a chan 86% o ddisgyblion. Mae hyn yn cymharu â 63% a 90% ar gyfer arolwg CHETS Cymru 2008.

Yn gyffredinol, cymerodd 51 o'r ysgolion a gymerodd ran yn CHETS Cymru ran, unwaith eto, yn 2014. Disodlwyd y 24 oedd yn weddill gan ysgol a ddewiswyd o'r un haen (wedi'i diffinio gan yr awdurdod addysg lleol a nifer uchel/isel y plant oedd â hawl i ginio ysgol am ddim). O ran demograffeg neu gwestiynau ynghylch cysylltiad â mwg ail-law, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng plant mewn ysgolion a gymerodd ran unwaith yn unig a'r rhai a gymerodd ran yn 2008 a 2014.

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol, ychwaith, rhwng samplau 2008 and 2014 o ran demograffeg allweddol (cyfansoddiad rhywedd, oedran, strwythur teuluol). Er bod sgorau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd (FAS)[6] yn uwch yn 2014, gyrrwyd hyn gan y cynnydd sydyn ar draws pob grŵp economaidd-gymdeithasol mewn bod yn berchen ar gyfrifiadur. Wrth symud yr eitem ar fod yn berchen ar gyfrifiadur o'r raddfa, cafwyd union yr un sgorau FAS cymedrig ar bob un cyfnod.

O'r herwydd, roedd modd cymharu'r samplau'n helaeth a gellir dehongli, gyda hyder, newidiadau rhwng 2008 a 2014 fel newidiadau dilys dros gyfnod o amser.

## 2.2 Ysmygu mewn ceir

Fel yn CHETS Cymru, gofynnwyd i blant a oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu yng nghar, fan neu drỳc y teulu (ydi, nac ydi, dim yn gwybod neu nid oes gennym gerbyd teuluol). Gofynnwyd i'r plant hefyd a oeddynt mewn car y diwrnod cynt lle'r oedd rhywun yn ysmygu.

---

[6] Cyfrifir Sgôr Cyfoeth Teuluoedd trwy gyfrif eitemau ar nifer y ceir y mae teulu'n berchen arno, nifer y gwyliau a gymerwyd fel teulu yn y 12 mis diwethaf, nifer y cyfrifiaduron y maent yn berchen arnynt ac a oedd y plentyn yn dweud bod ganddo ei lofft ei hun ai peidio.

Yn 2014, dywedodd 9% o blant bod ysmygu’n cael ei ganiatáu yng ngherbyd eu teulu. Roedd hyn yn cyfateb i 11% o’r plant hynny a ddywedodd bod eu teulu’n berchen ar gar a’u bod yn gwybod bod ysmygu’n cael ei ganiatáu ynddo. Mae hyn yn hanner nifer y plant a ddaeth i gysylltiad â mwg ail-law er 2008, pryd dywedodd 18% (23% o’r plant hynny a ddywedodd bod eu teulu’n berchen ar gar a’u bod yn gwybod bod ysmygu’n cael ei ganiatáu ynddo) bod ysmygu’n cael ei ganiatáu yng ngherbyd eu teulu. Dywedodd pedwar y cant eu bod wedi dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn car y diwrnod blaenorol; roedd hyn yn ostyngiad ar 2008 - 7% oedd y ganran bryd hynny. Dywedodd saith y cant eu bod wedi dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn car y diwrnod blaenorol; roedd hyn yn ostyngiad ar 2008 - 13% oedd y ganran bryd hynny.

**Tabl 1. Pa mor aml y dywedwyd bod cyfyngiadau ar ysmygu yn y car (a’r ganran)**

| | | Ydi ysmygu’n cael ei ganiatáu yng nghar y teulu?* | | | | Mewn car lle'r oedd rhywun yn ysmygu ddoe? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ydi | Nac ydi | Dim yn gwybod | Dim car | |
| Sampl cyfan | 2007 | 327 (20.4) | 926 (57.8) | 231 (14.4) | 118 (7.4) | 107 (6.9) |
| | 2008 | 288 (18.0) | 965 (60.3) | 234 (14.6) | 114 (7.1) | 107 (6.7) |
| | 2014 | 141 (8.9) | 1140 (71.7) | 195 (12.3) | 115 (7.2) | 57 (3.6) |
| Plant rhieni sy’n ysmygu | 2007 | 301 (38.6) | 272 (34.9) | 114 (14.6) | 92 (11.8) | 102 (13.5) |
| | 2008 | 259 (34.8) | 284 (38.2) | 123 (16.5) | 78 (10.4) | 98 (13.3) |
| | 2014 | 131 (19.6) | 371 (55.5) | 87 (13.0) | 79 (11.8) | 46 (7.0) |

Cwestiwn newydd a ofynnwyd i blant ar gyfer CHETS Cymru 2 oedd pa mor aml oedd pobl yn ysmygu yng nghar y teulu (oddeutu bob dydd, weithiau, byth, dim yn gwybod, neu dim car). At hyn, gofynnwyd i blant pa mor aml oeddynt yn y car pan oedd rhywun yn ysmygu ynddo (h.y. unrhyw gar yn hytrach na char y teulu’n unig).

Pan ofynnwyd i blant pa mor aml yr oedd rhywun yn ysmygu yng ngherbyd y teulu (yn hytrach nag a oedd yn cael ei ‘ganiatáu’, cafwyd amcangyfrifon oedd fymryn yn uwch o ran dod i gysylltiad â mwg ail-law yng ngherbyd y teulu, gyda 15% yn dweud bod pobl yn ysmygu yn eu car weithiau (12%) neu bron iawn bob dydd (3%). O’r plant hynny nad oeddynt yn gwybod a oedd ysmygu’n cael ei ganiatáu yn eu cerbyd, dywedodd cyfran sylweddol (26%) bod pobl yn ysmygu ynddo weithiau. Felly, dywedir bod ysmygu mewn


ceir yn digwydd mewn sawl achos lle nad yw plant yn siŵr a yw'n cael ei 'ganiatáu' ai peidio.

Pan ofynnwyd i blant ynghylch dod i gysylltiad ag ysmygu mewn car, dywedodd 4% eu bod mewn car bron iawn bob dydd lle'r oedd rhywun yn ysmygu, gyda 23% yn dweud eu bod weithiau mewn car lle'r oedd rhywun yn ysmygu.

### 2.3 Patrwm economaidd-gymdeithasol o ysmygu mewn ceir

Er bod teuluoedd tlotach yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar, ymhlith plant a ddywedodd bod eu teulu yn berchen ar gar, roedd plant o'r teuluoedd tlotach yn sylweddol fwy tebygol o ddweud bod ysmygu'n cael ei ganiatáu ynddo nag oedd y rhai hynny o deuluoedd cefnog (17% vs 7%). Er gwaethaf y ffaith bod eu teuluoedd yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar, roedd plant o'r teuluoedd tlotaf bron ddwywaith yn debygol o ddweud eu bod mewn car lle'r oedd rhywun yn ysmygu bron iawn bob dydd neu weithiau (5% a 31%) nag oedd eu cyfoedion mwyaf cyfoethog (2% and 18%).

**Ffigwr 1. Canran y plant sy'n dweud eu bod yn dod i gysylltiad â mwg ail-law mewn car o leiaf weithiau yn ôl Sgôr Cyfoeth Teuluoedd (sgôr uchel = cyfoeth mawr)**




### 2.4 Ymwybyddiaeth o Gychwyn Iach Cymru ac agweddau at ysmygu mewn ceir

Yn gyffredinol, roedd 33% o blant wedi clywed am Gychwyn Iach Cymru ac roedd 90% o'r rhain yn meddwl ei fod yn syniad da. Roedd mwyafrif helaeth o blant yn cytuno y dylid gwahardd ysmygu mewn ceir (71% unrhyw gar; 76% ceir yn cludo plant). Roedd

mwyafrif llai o'r plant hynny (54% unrhyw gar; 61% ceir yn cludo plant) a ddywedodd bod ysmygu'n cael ei ganiatáu yng ngherbyd y teulu yn cytuno gyda'r gosodiad y dylid gwahardd ysmygu mewn ceir. Felly, cred mwyafrif y plant y mae eu rhieni'n ysmygu yn eu ceir na ddylai hyn gael ei ganiatáu.

**2.5 Ysmygu yn y cartref**


Yn ogystal ag eitemau ar ysmygu mewn ceir, gofynnwyd i blant a oedd eu rhieni neu'r sawl oedd yn gofalu amdanynt yn ysmygu yn y cartref ac a oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu yn y cartref. Dangosodd atebion i'r ddau gwestiwn ostyngiad sylweddol mewn ysmygu yn y cartref er 2008. Yn 2008, dywedodd 67% o blant nad oedd eu rhieni neu'r sawl oedd yn gofalu amdanynt yn ysmygu yn y cartref - cododd hyn i 78% yn 2014. Yn 2008, yn enwedig, 29% yn unig o blant, oedd ag o leiaf un rhiant neu rywun yn gofalu amdanynt oedd yn ysmygu, ddywedodd nad oedd y bobl hyn yn ysmygu yn eu cartref. Roedd hyn yn dangos ei bod yn parhau'n norm i rieni neu'r sawl sy'n gofalu am y plant, ysmygu yn y cartref. Fodd bynnag, cododd hyn i 48% yn 2014, oedd yn golygu bod bron i hanner y plant a ddywedodd bod eu rhiant neu'r sawl oedd yn gofalu amdanynt yn ysmygu, yn dweud nad oeddynt yn ysmygu yn y cartref. Yn yr un modd, cododd canran y plant oedd yn byw mewn cartrefi di-fwg (h.y. a ddywedodd nad oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu yn y cartref o gwbl) o 63% i 74%. Unwaith eto, ymhlith y plant a ddywedodd bod o leiaf un rhiant/person oedd yn gofalu amdanynt yn ysmygu, roedd y rhai a ddywedodd bod eu cartref yn gartref di-fwg mewn lleiafrif clir yn 2008 (34%). Fodd bynnag, yn 2014, dywedodd (51%) o blant oedd ag un rhiant/person oedd yn gofalu amdanynt yn ysmygu, eu bod yn byw mewn cartref lle nad oedd ysmygu'n cael ei ganiatáu.

**2.6 E-sigaréts**

Yn 2014, dywedodd 67% o blant eu bod wedi clywed am e-sigaréts. Yn gyffredinol, dywedodd 6% eu bod wedi defnyddio e-sigarét o leiaf unwaith; deirgwaith yn fwy ag oedd wedi ysmygu tybaco (2%). O'r herwydd, nid oedd y rhan fwyaf o blant a ddywedodd eu bod wedi defnyddio e-sigarét erioed wedi ysmygu sigarét dybaco. Wrth holi'r plant hynny'n unig nad oedd erioed wedi ysmygu sigarét dybaco, dywedodd 5% eu bod wedi defnyddio e-sigarét . Ymhlith plant yr oedd eu dau riant neu'r sawl oedd yn

gofalu amdanynt yn ysmygu, dywed 12% eu bod wedi defnyddio e-sigarét o gymharu â 4% o'r rhai hynny nad oedd eu rhieni'n ysmygu. Dywedodd 83% o blant nad oedd yr un o'u rhieni neu'r sawl oedd yn gofalu amdanynt yn defnyddio e-sigarét, gyda 6% yn dweud bod eu tad, 6% bod eu mam a 5% bod y ddau.

**Ffigwr 2. Canran y plant sydd wedi defnyddio e-sigaréts yn ôl nifer y rhieni/y sawl sy'n gofalu amdanynt sy'n ysmygu tybaco**




Ymhlith y plant oedd erioed wedi ysmygu ac a ddywedodd eu bod wedi defnyddio e-sigarét, dywedodd 85% na fyddant bendant yn ysmygu yn y ddwy flynedd nesaf neu'n debygol o beidio â gwneud o gymharu â 98% o'r rhai nad oeddynt wedi defnyddio e-sigarét. O'r herwydd, er bod y rhan fwyaf yn dweud nad oeddynt yn bwriadu dechrau ysmygu yn y ddwy flynedd nesaf, roedd bwriadau gwrth-ysmygu'n sylweddol wannach ymhlith y rhai oedd wedi defnyddio e-sigaréts, gyda 15% yn dweud  y byddant neu y byddant, o bosib, yn dechrau ysmygu yn y ddwy flynedd nesaf o gymharu â 2% o'r rhai nad oedd.

Gofynnwyd i blant a oeddynt wedi gweld pobl yn ysmygu e-sigaréts y tu mewn i ystod o fannau cyhoeddus yn y mis diwethaf neu'r tu allan iddynt. Gwelwyd e-sigaréts yn fwyaf cyffredin yn cael eu defnyddio mewn gorsafoedd bysus (29% y tu mewn; 32% y tu allan), gorsafoedd trenau (24% y tu mewn, 27% y tu allan) ac mewn sinemâu (20% y tu mewn; 20% y tu allan). At hyn, dywedodd plant eu bod wedi gweld e-sigaréts yn cael eu defnyddio y tu mewn i ganolfannau hamdden a'r tu allan iddynt (15% y tu mewn; 23% y tu allan), mewn ysbytai (14% y tu mewn; 19% y tu allan) ac mewn meddygfeydd (12% y tu mewn, 17% y tu allan).

## 3. Casgliadau

Mae nifer y bobl sy’n ysmygu mewn ceir yn ogystal ag yn y cartref wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gyda phlant sydd â rhieni’n ysmygu’n dweud bod nifer gynyddol o gyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau preifat. Mae cyfran fawr o blant sydd ag un neu fwy o rieni sy’n ysmygu, yn parhau i ddod i gysylltiad â mwg mewn ceir a chartrefi, tra bo patrymu economaidd-gymdeithasol yn parhau. Mae’n ymddangos bod defnyddio e-sigaréts yn ddull newydd i blant gael arbrofi gyda nicotin ac mae’n amlycach ymhlith plant 10-11 mlwydd oed nag ysmygu tybaco. Mae defnyddio e-sigaréts yn fwy cyffredin ymhlith plant y mae eu rhieni’n ysmygu tybaco ac fe’i cysylltir â bwriadau cynyddol i ddechrau ysmygu.

## 4. Y Tîm Archwilio

Y tîm archwilio craidd oedd staff/myfyrwyr Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), oni nodir yn wahanol. Ymchwilwyr: Graham Moore, Jo Holliday a Laurence Moore (Cyngor Ymchwil Feddygol/Swyddfa’r Prif Wyddonydd, Uned y Gwyddorau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol Glasgow). Rheolwr y Prosiect: Nilufar Ahmed. Cynorthwywyr ymchwil: Elen Jones, Julie Hayward, Sophia Lewis, Hannah Littlecott, Gillian Sulley. Cynorthwywyr gweinyddol: Natalie Richards a Kim Sheppard.